**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

senedddeisebau@senedd.cymru

9 Chwefror 2021

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr ynghylch y ddeiseb ar swigod cefnogaeth i rieni plant o dan flwydd oed.

Mae'r ddeiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r rheoliadau coronafeirws ar gyfer lefel rhybudd pedwar er mwyn caniatáu i rieni plant o dan flwydd oed ffurfio swigen gefnogaeth gydag aelwyd arall.

Yng Nghymru, gellir ffurfio aelwydydd estynedig pan fydd Cymru ar lefel rhybudd 3, ond tra byddwn ni ar lefel rhybudd pedwar mae'r rhain wedi'u hatal oherwydd bod angen inni wneud popeth o fewn ein gallu i leihau nifer y bobl rydym mewn cysylltiad â hwy er mwyn atal y feirws rhag lledaenu, yn enwedig yr amrywiolyn newydd.

Ond mae swigod cefnogaeth yn dal i fod ar gael fel opsiwn i rieni sengl ac aelwydydd o un oedolyn cyfrifol.

Fodd bynnag, hyd yn oed i'r bobl hynny nad ydynt yn rhan o swigod cefnogaeth, mae ein rheolau'n caniatáu i bobl gael gafael ar gymorth a chefnogaeth gan bobl eraill, gan gynnwys teulu neu ffrindiau, os oes ei angen arnynt ac nad oes dewis rhesymol arall.

Rydym yn cydnabod y gall fod angen cymorth a chefnogaeth ychwanegol ar rieni babanod a phlant ifanc weithiau. Er mwyn helpu rhieni babanod newydd-anedig a phlant bach, mae ein rheolau'n caniatáu i drefniadau gofal plant anffurfiol gyda ffrindiau neu deulu barhau. Mae'r rheolau hefyd yn caniatáu cwrdd â ffrindiau neu deulu os oes angen cefnogaeth a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

chymorth ychwanegol, ond dim ond os nad oes dulliau rhesymol eraill o ddarparu'r gefnogaeth a’r cymorth hwnnw.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Cwestiynau Cyffredin (gweler yn arbennig yr ateb i’r cwestiwn "Rwy'n rhiant i faban ifanc, ydw i'n cael ffurfio swigen gefnogaeth?" tua diwedd yr adran "Gweld Pobl Eraill): https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-4-cwestiynau-cyffredin#section-58320

Rydym yn parhau i adolygu darpariaethau lefel rhybudd pedwar, a'u heffaith ar rieni a phlant, fel rhan o'r cylch tair wythnos rheolaidd ar gyfer adolygu'r rheoliadau.

Er y caniateir y cymorth ychwanegol hwn, gofynnwn i bawb feddwl yn ofalus am yr hyn sy'n angenrheidiol ac yn rhesymol yn eu sefyllfa hwy. Mae angen i bob un ohonom feddwl yn ofalus am yr hyn sy'n angenrheidiol i ddiogelu ein hunain, ein teuluoedd a'n cymunedau, ac i ddiogelu'r GIG.

Dymuniadau gorau



**MARK DRAKEFORD**